



**Law  
Commission**  
Reforming the law

---

---

Cyflawni dogfennau yn electronig

Crynodeb

---

---

**Papur Ymgynghori 237**

**21 Awst 2018**

## PWRPAS Y PROSIECT HWN

- 1.1 Mae gan y gyfraith ynglŷn â llofnodion a gofynion dogfennau eraill hanes sy'n ymestyn canrifoedd. Mor bell nôl a 1677, roedd gofyn gan Statud y Twyllau i gael rhai dogfennau yn ysgrifenedig ac i'w llofnodi. Mae'n dal mewn grym hyd heddiw. Ond nid yw'r dogfennau wedi'u llofnodi yn ein byd hyd heddiw yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd dros 400 mlynedd yn ôl. Mae unigolion, defnyddwyr a busnesau yn mynnu cael ffyrdd cyfleus ar gyfer gwneud trafodion rhwymol. Mae datblygiadau technegol wedi newid y ffyrdd y gwneir y trafodion hyn a bydd yn parhau i newid yn gyflym iawn.
- 1.2 A yw'r gyfraith yn Lloegr a Chyrmu yn gallu cynnal y cyflymdra? Mae'r gyfraith gyffredin yn hanfodol hyblyg a gall cytundebau gael eu creu mewn nifer o ffyrdd. Nid oes rhaid i'r mwyafrif o drafodion gael eu cyflawni mewn ffordd arbennig neu i'w gwneud yn ysgrifenedig. Er hynny, mae'r gyfraith yn mynnu bod dulliau penodol gan rai dogfennau, megis a thystio. "Ffurfioldebau" yw'r term ar gyfer y dulliau hyn. Mae sawl pwrpas am gael ffurfioldebau: cam tystiolaethol (darparu tystiolaeth o'r trafodiad); cam rhybudd (ceisio sicrhau bod y person yn sylweddoli beth y mae'n ei wneud); cam amddiffynol (amddiffyn partïon llai); cam labelu (gwneud y fath o ddogfen ac effaith y ddogfen yn amlwg i drydydd partïon).<sup>1</sup>
- 1.3 Gall y ffurfioldebau a roddir yn amrywio yn ôl y trafodiad. Er enghraifft, mae rhaid cael gwarant ar ffurf ysgrifenedig, neu i'w thystio yn ysgrifenedig, ac i'w llofnodi.<sup>2</sup> Mae rhaid i'r cytundeb am werthu tir fod yn ysgrifenedig ac wedi'i llofnodi, yn cyfuno'r holl dermau a gytunir gan y partïon mewn un dogfen neu, lle mae cytundebau yn cael eu cyfnewid, mewn pob dogfen.<sup>3</sup> Mae rhaid i atwrneiaeth gael ei chyflawni fel gweithred, sy'n golygu bod rhaid iddi chael ei llofnodi, ei thystio, ei hardystio a'i throsgludo.<sup>4</sup>
- 1.4 Mae'r ddau barti ar cyd Pwyllgor Cyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Pwyllgorau Cyfraith a Chyfraith Cyllid Cymdeithas Cyfreithwyr Llundain wedi cyhoeddi dau nodyn yn trafod cyflawni dogfennau masnachol.<sup>5</sup> Deallwn fod y nodiadau hyn wedi helpu lleihau rhai o'r ansicrwydd ynglŷn â chyflawni'r dogfennau ac rydym yn trafod hyn yn ein papur ymgynghori.<sup>6</sup> Yn fras, rydym yn cytuno gyda'r casgliadau hyn a amlinellir yn y

---

<sup>1</sup> Gweler paragraff 2.4 i 2.7 o'r papur ymgynghori.

<sup>2</sup> Statud y Twyllau 1677, adran 4.

<sup>3</sup> Deddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989, adran 2.

<sup>4</sup> Gweler paragraff 4.14 i 4.28 o'r papur ymgynghori. Fel yr ydym yn esbonio isod ym mharagraff 1.48 i 1.50, mae'r term "trosgludo" yn gamenw o fath. Er cyfeiriodd, yn hanesyddol, at y trosglwyddiad o berchenogaeth gorfforol y ddogfen, mae'r pwyslais nawr ar fwriad yr un sy'n gwneud y gweithred.

<sup>5</sup> Gweler Pwyllgor Cyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Pwyllgorau Cyfraith a Chyfraith Cyllid Cymdeithas Cyfreithwyr Llundain "Note on execution of documents at a virtual signing or closing" (Mai 2009, gyda newidiadau Chwefror 2010), <http://www.citysolicitors.org.uk/attachments/article/121/20100226-Advice-prepared-on-guidance-on-execution-of-documents-at-a-virtual-signing-or-closing.pdf> (ymwelwyd diwethaf ar 8 Awst 2018) (nodyn 2009); a'r Pwyllgor Cyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Pwyllgorau Cyfraith a Chyfraith Cyllid Cymdeithas Cyfreithwyr Llundain "Note on the execution of a document using an electronic signature" (Gorffennaf 2016), <http://www.citysolicitors.org.uk/attachments/category/114/LSEW%20%20CLLS%20Joint%20Working%20Party%20-%20Note%20on%20the%20Execution%20of%20a%20Document%20Using%20an%20Electronic%20Signature.pdf> (ymwelwyd diwethaf ar 8 Awst 2018) (nodyn 2016).

<sup>6</sup> Gweler Pennod 3, 7 a 8 o'r papur ymgynghori.

nodiau ac rydym yn eu cymeradwyo. Er hynny, credwn fod angen cael mwy o eglurhad am hyn.

- 1.5 Rydym wedi cael gwybod bod y materion cyfreithiol ynglŷn â chyflawni dogfennau yn rhywstro'r defnydd o dechnoleg newydd, yn enwedig lle mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddogfen gael ei "llofnodi yn ysgrifenedig". Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau bod y gyfraith yn llywodraethu cyflawni dogfennau yn electronig, gan gynnwys llofnodion electronig, yn ddigon sicr ac yn hyblyg i aros yn addas i'r diben mewn amgylchedd byd-eang a digidol.
- 1.6 Dyma'r amodau gorchwyl y prosiect hwn, fel a gytunwyd rhwng Comisiwn y Gyfraith a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:

(1) I ystyried a oes 'na broblemau gyda'r gyfraith ynglŷn â chyflawni dogfennau a gweithredoedd yn electronig (gan gynnwys gweithredoedd ymddiried) sy'n rhywstro'r defnydd o ddogfennau electronig gan bartïon masnachol a, os yw'n gymwys, defnyddwyr, yn enwedig mewn perthynas â:

(a) Llofnodion electronig;

(b) Tystio;

(c) Trosgludo; a'r

(d) Effeithiau'r penderfyniad yn *R (cais Mercury Tax Group Ltd) v HMRC* [2008] EWHC 2721 (Admin).<sup>7</sup>

(2) Yn dilyn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol, i ystyried a oes angen, ac os felly, cael diwygiad deddfwriaethol neu fesurau eraill er mwyn gafael â'r materion hyn.

(3) Nid oes disgwyl i'r ystyriaeth hon gynnwys y cyflawniadau electronig canlynol:

(a) Gwarediadau cofrestredig o dan Deddf Cofrestru Tir 2002, a drafodir gan Gofrestrfa Tir EM yn ei phrosiect ar drawgludo a chofrestru yn electronig; ac

(b) Ewyllysiau, a drinnir gan Comisiwn y Gyfraith yn ei brosiect "Gwneud ewyllys".

1.7 Mae'r prosiect hwn yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

1.8 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ein papur ymgynghori, yn egluro yn fanwl y gyfraith gyfredol a'n cynigion am ddiwygiad. Mae'r papur ymgynghori ar gael ar-lein yn <https://www.lawcom.gov.uk/project/electronic-execution-of-documents/>. Rydym yn eich gwahodd i ymateb i'n cwestiynau ymgynghori a welir ar ddiwedd y ddogfen hon. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw **23 Tachwedd 2018**.

---

<sup>7</sup> Ym *mhenderfyniad Mercury*, cyfeiriodd Mr Justice Underhill (fel yr oedd e'n cael ei adnabod yr adeg hynny) at ddogfen sy'n gorfod bod yn "endid corfforol arwahanol (pa un ai mewn un fersiwn unig neu mewn cyfres o wrthranau) ar adeg y llofnodi": gweler paragraff 1.52 isod a pharagraff 4.77 i 4.87 o'r papur ymgynghori. Nid oedd y sylwadau hyn yn rhan o'r penderfyniad rhwymol.

### **Mae modd anfon sylwadau drwy:**

lenwi ffurflen ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/law-commission/electronic-execution> (lle bo'n bosibl, byddai'n help mawr pe gallech gwblhau'r ffurflen hon).

### **Fel arall, mae modd anfon sylwadau:**

Dros e-bost at [electronic-execution@lawcommission.gov.uk](mailto:electronic-execution@lawcommission.gov.uk). Mae ffurflen ymateb opsiynol ar gael yn: <http://www.lawcom.gov.uk/electronic-execution>

Drwy'r post at Commercial and Common Law Team, Comisiwn y Gyfraith, 1st Floor, Tower, 52 Queen's Anne Gate, London, SW1H 9AG.

(Os ydych yn anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n ddefnyddiol pe baech hefyd, os oes modd, yn eu hanfon yn electronig hefyd.)

- 1.9 Mae'n bwysig pwysleisio bod y cynigion a drafodir yn y papur ymgynghori hwn yn rhai dros dro. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus agored hwn, rydym yn eich gwahodd i fynegi barn ar ein cynigion dros dro. Bydd y barnau hyn yn cael eu hystyried wrth inni lunio ein hargymhellion terfynol, a gyhoeddir mewn adroddiad diweddarach.

## **NODYN AM DECHNOLEG**

- 1.10 Mae ein papur ymgynghori yn niwtral o safbwynt technoleg, h.y. nid ydym yn canolbwyntio neu ffocysu ar fath penodol o dechnoleg. Felly, rydym yn defnyddio'r term "llofnodion electronig" yn eang, i gynnwys popeth megis llofnodion llawysgrifol wedi'u sganio, llofnodion digidol a Seilwaith Allweddol Cyhoeddus. Ym Mhennod 2 y papur ymgynghori llawn, rydym yn darparu crynodeb o'r prif fathau o lofnodion electronig.
- 1.11 Mae'r rhanddeiliaid wedi dweud wrthym nad yw'r dilysrwydd cyfreithiol yr unig beth sy'n rhwystro'r defnydd o gyflawni rhai trafodion yn electronig. Mae materion ymarferol, megis diogelwch a dibynadwyaeth llofnodion electronig, hefyd yn bwysig. Ym Mhennod 2, rydym yn amlinellu rhai o'r materion ymarferol hyn a fydd partïon sy'n dymuno defnyddio llofnodion electronig efallai eisiau eu hystyried.
- 1.12 Dylai'r rhai sy'n defnyddio llofnodion electronig fod yn ddigon bodlon y bydd y dulliau wedi'u pennu yn darparu digon o ymddiried rhwng y partïon a chael digon o bwysau tystiolaeth ar gyfer dibenion y trafodiad. Er bod y syniad o wneud y trafodiad i gyd yn electronig yn un apelgar, dylai partïon ystyried hefyd a oes 'na ffyrdd sydd ychydig llai cyfleus o sicrhau ymddiried a thystiolaeth ond sy'n darparu mwy o sicrwydd. Serch hynny, gall fod demtasiwn i bartïon or-bwysleisio diogelwch llofnodion â "phen inc" neu lofnodion ysgrifenedig dros lofnodion electronig. Nid yw'r ffurfiau traddodiadol hyn o gael llofnod yn rhydd o risg.

## **BETH YW'R BROBLEM?**

- 1.13 Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym eu bod nhw, a'u cleientiaid, yn defnyddio llofnodion electronig yn hyderus ar gyfer bob math o drafodion, gan gynnwys y rhai

sydd, yn ôl y gyfraith, angen cael eu "llofnodi yn ysgrifenedig" neu eu cyflawni fel gweithred. Serch hynny, mae eraill yn gwrthod defnyddio llofnodion electronig ac yn lle hynny, maent yn cyflawni bob un o'u dogfennau yn ysgrifenedig oherwydd, neu yn rhannol oherwydd, pryderon am eu dilysrwydd.

- 1.14 Mae ansicrwydd penodol lle mae trafodion yn cael eu cyflawni gyda gweithredoedd oherwydd, fel a welir isod, mae angen i weithredoedd gael eu llofnodi "ym mhresenoldeb tyst sy'n ardystio'r llofnod". Y canlyniad yw, hyd yn oed pan ddefnyddir llofnodion electronig, bod rhanddeiliaid fel rheol yn sicrhau bod y llofnodwr a'r tyst sy'n ardystio yn gorfforol presennol yn yr un ystafell.
- 1.15 Credwn ni fod achos i ystyried a oes angen diwygio'r gyfraith ynglŷn â chyflawni dogfennau yn electronig ac os felly a fyddai'n fuddiol i'w gwneud. Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod y diffyg eglurdeb yn y gyfraith yn golygu nad yw rhai partion yn cael eu hannog i gyflawni dogfennau yn electronig mewn amgylchiadau lle byddai'n fwy effeithlon ac yn gyfleus i'w gwneud. Gall hyn gael effaith anghyfartal ar fusnesau bychain a busnesau newydd, oherwydd nad oes ganddynt fynediad at arbenigedd cyfreithiol yn yr un ffordd a'r busnesau masnachol mawr.

## Y GYFRAITH GYFREDOL A'R CYNIGION AM DDIWYGIAD

### Llofnodion electronig

- 1.16 Mae rheoliad eIDAS (eIDAS)<sup>8</sup> yn rheoliad UE sy'n gymwys i bob aelod-wladwriaeth heb yr angen am weithredu cenedlaethol.<sup>9</sup> Mae'n datgan na all llofnod electronig gael ei wrthod ar sail effeithioldeb cyfreithiol gan fod yn electronig yn unig, ac mae llofnodion electronig cymwys yn<sup>10</sup> bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol yn yr un ffordd â llofnodion ysgrifenedig.<sup>11</sup>
- 1.17 Mae eIDAS yn darparu hefyd bod llofnodion electronig yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol.<sup>12</sup> Mae'r Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000, statud y DU, yn adlewyrchu'r ddarpariaeth derbynioldeb yn eIDAS,<sup>13</sup> ond nad yw'n darparu yn ffurfiol ar gyfer dilysrwydd llofnodion electronig.
- 1.18 Er hynny, mae 'na dyfarniadau diweddar gan y Llys Apêl a'r Uchel Lys sydd wedi penderfynu bod dulliau electronig o lofnodi, megis enw wedi'i deipio mewn e-bost a

---

<sup>8</sup> Rheoliad (UE) Rhif 910/2014 y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar 23 Gorffennaf 2014 ynglŷn ag adnabyddiaeth electronig a gwasanaethau ymddiriedolaeth ar gyfer trafodion electronig yn y farchnad gartref a'r Gyfeireb ddiddymu.

<sup>9</sup> Felly, ar hyn o bryd, mae eIDAS yn rhan o'r gyfraith y DU. Ar y dyddiad y bydd y DU yn gadael yr UE, bydd eIDAS yn cael ei ymgorffori yn gyfraith wladwriaethol: Deddf Undeb Ewropeaidd (Dilead) 2018, adran 3(1). Gweler paragraff 3.32 o'r papur ymgynghori.

<sup>10</sup> Am esboniad am y mathau gwahol o lofnodion electronig, gan gynnwys llofnodion electronig gymwys, gweler paragraff 2.9 i 2.36 o'r papur ymgynghori.

<sup>11</sup> eIDAS, erthygl 25.

<sup>12</sup> eIDAS, erthygl 25(1).

<sup>13</sup> Deddf Cyfathrebiadau Electronig 2000, adran 7.

chlicio ar fotwm "Rwy'n derbyn", yn bodloni'r gofyn statudol am gael llofnod. Dyna'r achos yma oni bai bod bwriad i ddilysu'r ddogfen.<sup>14</sup>

- 1.19 Mae ein barn ni, ar hyn o bryd, yw bod y cyfuniad o eIDAS, deddfwriaeth wladwriaethol a'r gyfraith achosion yn golygu bod modd i lofnod electronig gwrdd â'r gofyn statudol am gael llofnod oni bai bod y bwriad i ddilysu'r ddogfen yn cael ei weld.<sup>15</sup> Nid yw'r farn hon yn gyfyngedig i fath penodol o lofnod electronig: mae'r gyfraith yn hyblyg.
- 1.20 Mae'r farn hon yn gyson gyda chasgliadau'r Comisiwn y Gyfraith yn ei waith Cyngor i'r Llywodraeth 2001 ar y ffurfioldebau sy'n gymwys ar gyfer cytundebau masnachol yn Lloegr a Chymru.<sup>16</sup>

#### A oes angen cael deddfwriaeth?

- 1.21 Rydym wedi penderfynu, am y tro, bod y gyfraith gyfredol yn ei darparu yn ddigonol ar gyfer llofnodion electronig, ond rydym yn ymwybodol y hoffai rhai rhanddeiliaid gael datganiad deddfwriaethol clir i osgoi unrhyw amheuaeth.
- 1.22 Felly, rydym wedi ystyried a ddylai fod diwygiad deddfwriaethol yn cynnwys datganiad statudol bod llofnod electronig yn un mor dilys a llofnod ysgrifenedig. Mae 'na manteision amlwg i ddull o'r fath, a fyddai'n darparu eglurdeb a sicrwydd. Rydym wedi archwilio awdurdodaethau eraill, megis Awstralia, Estonia, Hong Kong, Efrog Newydd, Yr Alban, a Singapôr, ac mae pob un yn darparu datganiad o'r fath am ddilysrwydd mewn deddfwriaeth.<sup>17</sup> Er hynny, nid ydym yn credu'n sicr, ar hyn o bryd, bod hyn yn angenrheidiol yn Lloegr a Chymru oherwydd ein casgliad bod y gyfraith gyfredol eisoes yn cynnwys llofnodion electronig.
- 1.23 Serch hynny, mae hyn yn gwestiwn union gytbwys ac rydym am dderbyn barnau'r ymgynghoreion.

#### Achos prawf?

- 1.24 Efallai byddai'r ymgynghoreion eisiau ystyried opsiwn gwahanol sef a fyddai'n bosib hawlio yn erbyn y dull achos prawf o dan y Rhestr Ariannol.<sup>18</sup> Gallai'r dull hwn gael ei

---

<sup>14</sup> Trafodwn ni ym mhennod 3 *J Pereira Fernandes SA v Mehta* [2006] EWHC 813 (Ch), [2006] 1 WLR 1543; *WS Tankship II BV v Kwangju Bank Ltd* [2011] EWHC 3103 (Comm); *Golden Ocean Group Ltd v Sagaocar Mining Industries PVT Ltd* [2012] EWCA Civ 265, [2012] 1 WLR 3674; *Bassano v Toft* [2014] EWHC 377 (QB); *Re Stealth Construction Ltd; Green (Liquidator of Stealth Construction Ltd) v Ireland* [2011] EWHC 1305 (Ch); *Lindsay v O'Loughnane* [2010] EWHC 529 (QB); and *Orton v Collins* [2007] EWHC 803 (Ch), [2007] 1 WLR 2953.

<sup>15</sup> Gweler paragraff 3.83 i 3.87 o'r papur ymgynghori. Mae modd hefyd defnyddio llofnod electronig yn lle llofnod ysgrifenedig hyd yn oed pan nad oes gofyn statudol i gael llofnod.

<sup>16</sup> Masnach electronig: gofynion ffurfiol mewn trafodion masnachol – Cyngor gan Comisiwn y Gyfraith (2001), <https://www.lawcom.gov.uk/project/electronic-commerce-formal-requirements-in-commercial-transactions/> (ymwelwyd diwethaf ar 8 Awst 2018).

<sup>17</sup> Trafodwn y sefyllfa gyfreithiol ar gyfer llofnodion electronig yn yr awdurdodaethau hyn ym Mhennod 5 y papur ymgynghori, gyda mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 2. Er enghraifft, yn Yr Alban, mae Deddf Gofynion Ysgrifenedig (Yr Alban) 1995 yn rhestru'r dogfennau sydd angen bod yn ysgrifenedig i fod yn ddilys. Mae'n hefyd yn pennu'r ffordd y gall gofynion o'r fath gael eu cyflawni yn electronig, sy'n golygu defnyddio math penodol o lofnod electronig: gweler paragraff 5.22 o'r papur ymgynghori.

<sup>18</sup> Cyfarwyddyd Ymarfer 51M, Rheolau Trefniadaeth Sifil 1998, SI 1998 Rhif 3132.

ddefnyddio i sicrhau rheolaeth awdurdodol ar effeithioldeb llofnodion electronig, oni bai bod rhai anghenion yn cael eu hateb.<sup>19</sup>

### Gweithgor yn trafod materion ymarferol a thechnegol

1.25 Rydym yn cynnig, am nawr, bod gweithgor diwydiant yn cael ei sefydlu, i'w gynllunio o bosib gan y Llywodraeth, i ystyried materion ymarferol a thechnegol a allai fod yn dylanwadu ar benderfyniad y parti i gyflawni dogfen yn electronig. Gallai'r materion hyn gynnwys diogelwch a dibynadwyaeth llofnodion electronig. Rydym wedi cael gwybod gan randdeiliaid bod 'na cwestiynau hefyd ynglŷn ag ymddiried ac uniaeth, sut fydd systemau eraill yn gweithio gyda llofnodion electronig, ac archifo gwybodaeth. Credwn ni y bydd cyfarwyddyd gan weithgor diwydiant efallai yn rhoi mwy o hyder i randdeiliaid sy'n dymuno defnyddio llofnodion electronig ond sy'n betrusgar i'w wneud oherwydd pryderon ymarferol neu dechnegol.<sup>20</sup>

### Gweithredoedd

1.26 Mae gweithredoedd yn ddogfen gyda mwy o ofynion ffurfiol caeth na ddogfen sydd ond yn gofyn i'w hysgrifennu neu i'w llofnodi.<sup>21</sup> Mae'r Comisiwn y Gyfraith eisoes wedi diffinio gweithred fel dogfen ysgrifenedig a gyflawnir gyda ffurfioldeb angenrheidiol, lle mae budd, hawl neu eiddo yn cael ei derbyn neu gadarnhau, neu lle mae rhwymedigaeth ar rywun yn cael ei greu neu gadarnhau.<sup>22</sup>

1.27 Mae ychydig iawn o drafodion sydd rhaid cael eu cyflawni gyda gweithred yn hytrach na chytundeb syml. Fel arfer, mae angen cael rhain ar gyfer trafodion tir, am gytundebau a wneir heb ystyriaeth (hynny yw, heb ymrwymiad cytbwys megis tâl) ac am ganiatáu atwrneiaethau.<sup>23</sup>

1.28 Fel rheol, mae rhaid i'r gweithred, er mwyn cael ei gyflawni yn ddilys, gael ei lofnodi ym mhresenoldeb tyst sy'n ardystio'r llofnod, a'i drosgludo fel gweithred.<sup>24</sup> Yn annhebyg i lofnodion electronig, nid oes darpariaethau deddfwriaethol mewn grym ar hyn o bryd sy'n trafod cyflawni gweithredoedd yn electronig.

### Tystio ac ardystio

1.29 Mae tystio yn golygu gweld y gweithred o gyflawni dogfen. Ardystio yw'r cam ychwanegol o gofnodi, ar y ddogfen ei hun, yn dangos bod y tyst wedi gweld y ddogfen yn cael ei chyflawni.<sup>25</sup>

---

<sup>19</sup> Gweler paragraff 7.21 i 7.23 o'r papur ymgynghori; Cyfarwyddyd Ymarfer 51M, paragraff 2.1 a CPR, r 63A.

<sup>20</sup> Gweler paragraff 7.24 i 7.28 o'r papur ymgynghori.

<sup>21</sup> Am drafodaeth am weithredoedd, gweler Pennod 4 o'r papur ymgynghori.

<sup>22</sup> Cyflawni Gweithredoedd gan neu ar ran Cyrff Corfforaethol (1998) Comisiwn y Gyfraith Rhif 253 (Adroddiad 1998), paragraff 2.4 i 2.5.

<sup>23</sup> Gweler paragraff 4.9 i 4.13 o'r papur ymgynghori.

<sup>24</sup> Deddf Gyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989, adran 1. Mae adran 44 a 46 o'r Deddf Cwmnïau 2006 yn trafod gweithredoedd a gyflawnir gan gwmnïau cofrestredig o dan y Deddf honno.

<sup>25</sup> Gweler enghraifft yn *Wright v Wakeford* [1803-13] All ER Rep 589 at 591.



- 1.30 Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu na ddylai fod yn angenrheidiol bod y broses tystio ac ardystio yn digwydd ar gyfer gweithredoedd a gyflawnir gyda llofnod electronig. Rydym wedi cael gwybod bod y broses yn achosi oedi ac anghyfleustra wrth gyflawni gweithredoedd.
- 1.31 Credwn fod y gofyn am dystio ac ardystio dogfennau yn bodloni swyddogaeth dystiolaethol bwysig pa un a lofnodir y gweithred yn electronig neu beidio, a na chredwn fod unrhyw gyfiawnhad am gael anghysondeb sylweddol o'r fath rhwng dogfennau electronig a dogfennau copïau caled. Felly, credwn ni y dylai'r gofyn am dystio ac ardystio aros fel y mae ar gyfer gweithredoedd a gyflawnir yn electronig.<sup>26</sup>

#### *A oes angen i'r tyst fod yn gorfforol presennol?*

- 1.32 Os bydd y gofyn am dystio ac ardystio yn aros fel y mae, sut fydd yn cael ei fodloni os byddai llofnod electronig yn cael ei ddefnyddio? Y ffordd mwya syml o wneud hyn fyddai cael y tyst yn gorfforol presennol pan fyddai'r llofnod electronig yn cael ei ychwanegu i'r ddogfen. Er hynny, rydym wedi ystyried hefyd a fyddai'r ffurf arall o "presenoldeb", megis linc fideo, fod yn ddigonol.
- 1.33 Mae ein barn ni, am nawr, yw bod y ddarpariaeth bresennol sy'n nodi bod rhaid i'r gweithred cael ei lofnodi "ym mhresenoldeb tyst" yn golygu bod rhaid cael presenoldeb corfforol y tyst pan lofnodir y ddogfen. Yn seiliedig ar adeiladwaith statudol a cyfraith achosion, nid ydym yn ddigon sicr y gallai partïon fod yn hyderus y byddai'r gyfraith gyfredol yn caniatáu'r tyst i weld y llofnodi ar sgrîn, heb forfod bod yn gorfforol presennol. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, ei bod yn annhebyg y byddai tystio drwy linc fideo yn bodloni'r gofyn am dystio ac ardystio.<sup>27</sup>
- 1.34 Rydym wedi ystyried felly opsiynau posibl ar gyfer diwygiad i ganiatáu trefniadau mwy hyblyg ar gyfer gweithredoedd a gyflawnir yn electronig.

#### *Cynnig dros dro: tystio drwy linc fideo*

- 1.35 Rydym yn cynnig, dros dro, y dylai fod yn bosibl i dyst weld llofnod electronig drwy linc fideo ac i ardystio'r ddogfen wedyn gan ychwanegu ei llofnod/lofnod electronig ei hun iddi.<sup>28</sup> Gallai'r tystio ac ardystio ddigwydd mwy na lai yr un pryd, pe gallai'r ddau barti logio mewn i'r un rhaglen lofnodi. Pe bai'r ddogfen electronig lofnodedig yn cael ei hanfon drwy e-bost at y tyst, gallai'r tyst wedyn ardystio'r ddogfen yn syth wedi gweld y llofnodwr yn lofnodi'r ddogfen.
- 1.36 Byddai'r gofynion sylfaenol ar gyfer cyflawni gweithred yn ddilys (hynny yw, lofnodi, tystio, ardystio a throsgludo) yn aros yr un peth. Credwn y gallai'r opsiwn hwn fodloni'r swyddogaethau dystiolaethol, amddiffynnol a phwyllog y ffurfioldebau i'r un graddfa neu raddfa debyg â thystio ac ardystio mewn person.<sup>29</sup>

---

<sup>26</sup> Gweler paragraff 8.7 o'r papur ymgynghori.

<sup>27</sup> Gweler paragraff 8.8 i 8.15 o'r papur ymgynghori.

<sup>28</sup> Gweler paragraff 8.24 i 8.33 o'r papur ymgynghori.

<sup>29</sup> Ym mharagraff 4.40 o'r papur ymgynghori, nodwn nad yw'n glir a yw'r swyddogaeth "labelu" ar gyfer ffurfioldebau yn cael ei chwrrd drwy dystio ac ardystio. Yn lle hynny, mae'n cael ei chwrrd yn ddigonol gan ffurfioldebau eraill.



1.37 Rydym yn gofyn i ymgylgoreion am eu barnau. Rydym yn gofyn hefyd sut ddylai ardystio gael ei gyflawni.

*Opsiynau eraill ar gyfer diwygiad: symud ymlaen o dystio ac ardystio*

1.38 Rydym wedi ystyried hefyd sefyllfaoedd posib lle na fyddai'r tyst yn gweld y llofnodwr yn ychwanegu'r llofnod electronig, ond lle byddai tystiolaeth eraill yn bodoli i awgrymu bod y llofnodwr, a neb arall, wedi llofnodi'r ddogfen.

1.39 Yn gyntaf, ystyriwn y syniad o ddefnyddio rhaglen lofnodi.<sup>30</sup> Gallai'r llofnodwr a'r tyst logio mewn i'r un rhaglen lofnodi ond o leoedd gwahanol, wedi mynd drwy'r broses dilysu yn defnyddio cyfrinair, rhif PIN wedi'i anfon at eu ffôn symudol, neu ddogfen adnabod wedi'i sganio megis trwydded yrru.

1.40 Pe gallai'r tyst weld y llofnod electronig ar ei sgrîn mewn amser real, a ddylai fod yn angenrheidiol hefyd i'r tyst weld y llofnodwr yn ychwanegu ei llofnod/lofnod drwy linc fideo? Rydym yn meddwl y gallai'r defnydd o raglen lofnodi yn unig fodloni swyddogaethau tystio, ond i raddau llai na pe gallai'r tyst weld y llofnodwr yn ychwanegu ei llofnod/lofnod electronig. Rydym yn gofyn i ymgylgoreion a ydynt yn meddwl y dylai fod yn bosibl i gyflawni gweithred yn y ffordd hon, gan nodi na fyddai'r tyst yn gallu ardystio am weld y llofnodi yn digwydd.

1.41 Yn ail, trafodwn y posibilrwydd o ailgyflwyn'r gofynion tystio ac ardystio i ofyn lle bydd rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi gyda llofnod digidol, sef math o lofnod electronig mwy gymhleth a gyflawnir drwy ddefnyddio cêl-ysgrifiaeth, sef system sy'n defnyddio un pâr o allweddi cyhoeddus ac un pâr o allweddi preifat.<sup>31</sup>

1.42 Byddai hyn yn debyg i'r dull arfaethedig gan Gofrestrfa Tir EM ynghylch gwarediadau sydd rhaid cael eu cofrestru.<sup>32</sup> Er hynny, mae 'na ffactorau sy'n gwneud y dull hwn yn anaddas i'n dibenion mwya cyffredinol. Mae gan Gofrestrfa Tir EM rywfaint o reolaeth am system hunangynhwysol ar gyfer cofrestru dogfennau. Nid yw'r ystod o ddogfennau a drafodir yn ein prosiect yn gyfyngedig i un math o drafodiad, neu i un system benodol o gofrestru. Byddai'r un lefel o safoni yn anodd i'w gyflawni ar gyfer bob math o ddogfennau, a gallai fod yn annymunol. Felly, rydym yn credu na ddylai'r gofyn am dystio ac ardystio gael ei ailgyflwyno gyda'r gofyn lle byddai rhaid i'r ddogfen gael ei llofnodi yn defnyddio math arbennig o dechnoleg. Rydym yn gofyn a yw'r ymgylgoreion yn cytuno.

1.43 Yn drydydd, rydym yn chwilio'r posibiliad o syniad newydd am "cydnabyddiaeth electronig".<sup>33</sup> Rydym yn rhagweld y byddai'r llofnodwr yn llofnodi'r ddogfen yn electronig, ac yn cydnabod i'r tyst ei bod/ei fod wedi ei llofnodi, naill ai yn dangos neu yn anfon y ddogfen i'r tyst. Byddai'r tyst wedyn yn llofnodi'r ddogfen gyda'i lofnod/llofnod ei hun ac yn cynnwys datganiad bod y llofnodwr eisoes wedi "cydnabod" y llofnod.

---

<sup>30</sup> Gweler paragraff 8.38 i 8.42 o'r papur ymgynghori.

<sup>31</sup> Gweler paragraff 8.43 i 8.50 o'r papur ymgynghori. Am fwy o fanylion am y fath hon o dechnoleg, gweler paragraff 2.18 i 2.23 o'r papur ymgynghori.

<sup>32</sup> Cofrestrfa Tir EM, *Ymgynghoriad am gynigion i newid Rheolau Cofrestru Tir 2003* (2017), paragraff 21 i 37; Cofrestrfa Tir EM, *Ymateb y Llywodraeth am gynigion i newid Rheolau Cofrestru Tir 2003* (2018), pennod 4.

<sup>33</sup> Gweler paragraff 8.51 i 8.60 o'r papur ymgynghori.

- 1.44 Ystyriwn y broses o gyflwyno syniad newydd am gydnabyddiaeth electronig a sut allai gynyddu effeithlonrwydd trafodion, gan fodloni swyddogaethau tystio i raddau tebyg â'r tystio ac ardystio traddodiadol.
- 1.45 Mewn egwyddor, gallai'r llofnodwr gydnabod ei llofnod/lofnod yn ysgrifenedig, mewn person, drwy linc fideo neu dros y ffôn. Er mwyn sefydlu'r cyswllt tystiolaeth angenrheidiol rhwng y llofnodwr, y ddogfen a'r tyst, mae rhaid i'r tyst weld llofnod y llofnodwr ar y ddogfen cyn iddo/iddi gyflwyno ei llofnod/lofnod ei hun.
- 1.46 Credwn ni y byddai rhaid i'r broses cydnabod a thystio ddigwydd yn weddol fuan wedi'r llofnodi digwydd. Ni chredwn y dylai fod yn bosibl i gwblhau'r broses dystio wythnosau neu fisoedd wedi'r llofnodi digwydd. Yn yr un modd, ystyriwn y dylai'r prosesau cydnabod a thystio ddigwydd o fewn cyfnod weddol byr o amser o'i gilydd.
- 1.47 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu cywiriad deddfwriaethol sylweddol gan ei bod yn rhagweld newid sylfaenol i'r elfennau ffurfiol o weithred, ar gyfer gweithredoedd a gyflawnir yn electronig. Nid yw'n rhywbeth y byddem yn argymhell heb ystyriaeth difrifol ac rydym yn gofyn am farnau ymgylgoreion.

## Trosgludo

- 1.48 Unwaith mae'r gweithred wedi cael ei lofnodi, ei dystio a'i ardystio, mae rhaid i'r ddogfen gael ei "throsgludo fel gweithred". Yn hanesyddol, roedd trosgludo yn golygu'r gweithred o roi'r ddogfen i'r parti arall. Gydag amser, mae'r trosglwyddiad o berchenogaeth gorfforol wedi dod yn llai pwysig ac mae pwyslais nawr ar fwriad yr un sy'n gwneud y gweithred.
- 1.49 Yn ymarferol, mae partïon yn bodloni'r gofyn bod rhaid i'r gweithred gael ei "drosgludo" mewn nifer o ffyrdd. Gallai'r ddogfen nodi'r dyddiad a drosgludwyd y ddogfen<sup>34</sup> neu gallai fod "oedi" gyda'r trosgludo, mewn ysgrow neu ddarparu'r gweithred i drydydd parti i "dal yn ôl gorchymyn".<sup>35</sup> Ar gyfer cyrff corfforaethol, mae 'na rhagdybiaethau statudol sy'n tybio bod y gweithred yn cael ei drosgludo wedi'r llofnodi digwydd.<sup>36</sup>
- 1.50 Er hoffem weld y gair "trosgludo" yn cael ei newid yn ddelfrydol i adlewyrchu arferion modern, nid yw hyn yn ddigon o reswm ar ei ben ei hun i gyfiawnhau cywiriad deddfwriaethol. Nid ydymwedi clywed gan randdeiliaid bod y gofyn am drosgludo yn rhwystro cyfreithwyr a busnesau rhag gyflawni gweithredoedd yn electronig.<sup>37</sup>
- 1.51 Serch hynny, pe bai gweithredoedd i'w hystyried ar gyfer prosiect dyfodol, fel a drafodir isod, gallai'r newid gael ei wneud ar gyfer gweithredoedd yn gyffredinol, heb orfod ystyried sut gyflawnir y gweithredoedd.

---

<sup>34</sup> Er enghraifft, "Yn dystiolaeth o hynny, mae (enw y ddogfen) wedi cael ei gyflawni gan y partïon fel gweithred, a'i drosgludo ar y dyddiad a ysgrifennir gyntaf uchod."

<sup>35</sup> *Longman v Viscount Chelsea* (1989) 58 P & CR 189 at 195, a gyfeirir yn *Silver Queen Maritime Ltd v Persia Petroleum Services plc* [2010] EWHC 2867 (QB) at [107].

<sup>36</sup> Deddf Cwmnïau 2006, adran 46(2).

<sup>37</sup> Gweler paragraff 8.61 i 8.70 o'r papur ymgynghori.

## Penderfyniad *Mercury*

- 1.52 Ym mhenderfyniad yr Uchel Lys yn *Mercury*<sup>38</sup> cyfeiriodd Mr Justice Underhill, fel yr oedd e'n cael ei adnabod yr adeg hynny, at ddogfen sy'n gorfod bod yn "endid corfforol arwahanol (pa un ai mewn un fersiwn unig neu mewn cyfres o wrthrannau) ar adeg y llofnodi".<sup>39</sup> Cododd hyn bryderon ymysg cyfreithwyr am y defnydd o dudalennau llofnodion cyn-lofnodedig a sefyllfaoedd lle anfonir tudalennau llofnodion drwy e-bost neu ffacs.
- 1.53 Roedd y sylwadau yn rhai wrth fynd heibio - hynny yw, yn acnlysurol ac nid yn rhan o'r penderfyniad mawr. Nid ydynt yn awdurdod cyfrwymol. Er hynny, gwnaeth y sylwadau yn *Mercury* achosi digon o bryder i gyfiawnhau cyhoeddi nodyn gan y dau barti ar y cyd Pwyllgor Cyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Pwyllgorau Cyfraith a Chyfraith Cyllid Cymdeithas Cyfreithwyr Llundain (nodyn 2009).<sup>40</sup> Pwrpas y nodyn hwn oedd i gynorthwyo llofnodion a<sup>41</sup>therfyniadau rhithwir ar gyfer dogfennau a lywodraethir gan Gyfraith Loegr yng ngoleun *dogfen Mercury*.
- 1.54 Roedd dadansoddiad o *Mercury* yn *nodyn 2009a* chyfarwyddyd i ymarferwyr ynglŷn â sut i gyflawni llofnodion rhithwir o fathau gwahanol o ddogfennau, gan gynnwys gweithredoedd, cytundebau o dan adran 2 Deddf Cyfraith Eiddo (Darpariaethau Amrywiol) 1989, gwarantau neu gytundebau bychain.
- 1.55 Rydym yn cytuno gyda'r casgliadau yn nodyn 2009, ac rydym yn eu cymeradwyo, sy'n darparu ffordd ymarferol o ymdrin â'r pryderon a godir gan *Mercury* ac sy'n, o beth yr ydym yn ei deall, cael eu dilyn gan y farchnad.<sup>42</sup> Nid ydym yn cynnig diwygiad deddfwriaethol oherwydd na chredwn ei bod yn angenrheidiol. Rydym yn gofyn a yw'r ymgynghoreion yn cytuno.
- 1.56 Trafoda nodyn 2009 llofnodion â phen inc a'r broses o'u sganio. Er hynny, mae rhai rhanddeiliaid wedi gofyn am gyfarwyddyd am sut fydd llofnodion electronig yn bodloni'r gofyn bod y ddogfen yn "endid corfforol arwahanol ar adeg y llofnodi". Rydym yn rhagweld dwy sefyllfa bosibl.
- 1.57 Yn gyntaf, lle ychwanegir llofnod electronig at ddogfen electronig, ni chredwn y bydd y cwestiwn am y ddogfen bod yn "endid corfforol arwahanol ar adeg y llofnodi" yn codi. Credwn ni hyn oherwydd gall y llofnod cael ei ychwanegu at y ddogfen heb dynnu'r

---

<sup>38</sup> *R (Mercury Tax Group Ltd) v Her Majesty's Commissioners of Revenue and Customs* [2008] EWHC 2721 (Admin), [2009] STC 743. Am drafodaeth mwy fanwl, gweler paragraff 8.71 i 8.83 o'r papur ymgynghori.

<sup>39</sup> *R (Mercury Tax Group Ltd) v Her Majesty's Commissioners of Revenue and Customs* [2008] EWHC 2721 (Admin), [2009] STC 743 at [39] to [40]. Gweler paragraff 4.82 i 4.86 o'r papur ymgynghori, lle rydym hefyd yn cyfeirio at benderfyniad y Llys Apêl yn *Koenigsblatt v Sweet* [1923] 2 Pennod 314. Gwnaeth yr achos hwn, a gyfeiriwyd ato gan gwnsler yn *Mercury*, gynnwys y broses o gadarnhau llofnod.

<sup>40</sup> Gweler Pwyllgor Cyfraith Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Pwyllgorau Cyfraith a Chyfraith Cyllid Cymdeithas Cyfreithwyr Llundain "Note on execution of documents at a virtual signing or closing" (Mai 2009, gyda newidiadau Chwefror 2010), <http://www.citysolicitors.org.uk/attachments/article/121/20100226-Advice-prepared-on-guidance-on-execution-of-documents-at-a-virtual-signing-or-closing.pdf> (ymwelwyd diwethaf ar 8 Awst 2018).

<sup>41</sup> Mae "llofnod rhithwir", yng nghyd-destun y ddogfen, yn broses lofnodi neu gyfarfod cyflawni lle nad oedd bob un, neu nad oedd unrhyw rhai, o'r llofnodwyr yn bresennol.

<sup>42</sup> Rydym yn esbonio am hyn o baragraff 8.74 ymlaen o'r papur ymgynghori.

tudalennau llofnodion. Os bydd y tudalen llofnodion yn cael ei dynnu, yna dylai'r drefn yn nodyn 2009 gael ei dilyn.

- 1.58 Yn ail, ble gyflawnir dogfen ar raglen ar-lein, bydd gan y parti y ddogfen gyfan o'u blaen. Os yw'r ddogfen yn weithred, ac os bydd yr ychwanegiad o lofnod electronig yn digwydd ym mhresenoldeb corfforol y tyst, sydd wedyn yn ychwanegu ei llofnod/lofnod ei hun, yna bydd y llofnod a'r ardystio yn "ffurfio rhan o'r un dogfen".

## **ADOLYGIAD EHangach AM WEITHREDOEDD?**

- 1.59 Yn y papur ymgynghori, trafodwn y materion sy'n codi pan fydd ffurfioldebau a ddatblygwyd ar gyfer dogfennau a gyflawnwyd yn gopiâu caled yn cael eu defnyddio ar gyfer dogfennau â llofnodion electronig. Serch hynny, mae 'na cwestiwn arall, o benderfynu a yw'r ffurfioldebau hyn, a'r syniad o weithredoedd yn gyffredinol, dal yn addas i'r diben yn yr 21ain ganrif. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y dylai gweithredoedd gael eu diddymu, naill ai ar gyfer rhai mathau o drafodion, neu yn gyfan gwbl.
- 1.60 Er mwyn gafael â'r cwestiynau hyn, rydym yn gofyn am farnau ymgynghoreion ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai fod adolygiad ehangach o'r gyfraith am weithredoedd, fel prosiect ar wahân gan Comisiwn y Gyfraith. Gallai'r prosiect hwn ystyried gweithredoedd a gyflawnir yn electronig a'r gweithredoedd a gyflawnir mewn ffurf draddodiadol, yn ysgrifenedig.<sup>43</sup>

## **DEFNYDDWYR AC UNIGOLION BREGUS YN CYFLAWNI DOGFENNAU**

- 1.61 Yn ogystal â'r trafodion rhwng partion masnachol, mae'r prosiect hwn yn cynnwys dogfennau a gyflawnir gan ddefnyddwyr, megis cytundebau credyd defnyddwyr a gweithredoedd ymddiried. Mae'n hefyd yn cynnwys cyflawni dogfennau o'r enw atwrneiaethau barhaus. Defnyddir atwrneiaeth barhaus gan unigolyn (y rhoddwr) i awdurdodi rhywun arall i wneud penderfyniadau am les personol y rhoddwr, a'r/neu'r eiddo a'r materion. Mae'n felly yn ddogfen bwysig iawn, un a all gael effeithiau difrifol ar unigolyn os bydd yn cael ei chyflawni dan orfodaeth neu yn dwyllodrus.
- 1.62 Mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi pryder am gynnwys dogfennau o'r math hwn o fewn cwmpas y prosiect. Mae wedi cael ei hawgrymu bod defnyddwyr yn fwy tebygol i ymrwymo i gytundeb ar frys neu ar gam os ydynt yn defnyddio llofnod electronig.<sup>44</sup> Yngyhylch atwrneiaethau barhaus, mae'r effaith posib o'r dogfennau hyn yn codi pryderon difrifol am y cam-drin ariannol o bobl hŷn neu bobl bregus. Mae wedi caelei hawgrymu wrth ganiatáu'r dogfennau hyn i'w creu yn electronig, gallai'n arwain at gyfle am dwyll, gorfodaeth a cham-drin.<sup>45</sup>

---

<sup>43</sup> Gweler paragraff 8.86 i 8.88 o'r papur ymgynghori.

<sup>44</sup> Gweler Awdurdod Ymddygiad Ariannol, *Adolygiad o ddarpariaethau cadwedig yn Deddf Credyd Defnyddwyr: Interim report* (Awst 2018) Papur Trafod DP18/7, Atodiad 6, paragraff 156.

<sup>45</sup> Gweler paragraff 6.32 i 6.34 o'r papur ymgynghori.

- 1.63 Rydym wedi ystyried y pryderon hyn yn ofalus. Mae'r prif reswm am beidio â chynnwys y math hyn o ddogfennau yw'r ffaith bod defnyddwyr ac unigolion bregus eisiau mwy o amddiffyn na chyrrff masnachol. Mae rhaid i'r ddadl hon gael pwys sylweddol.
- 1.64 Rydym yn nodi mewn sefyllfaoedd lle gallai unigolion fod yn fregus iawn, mae 'na deddfwriaeth benodol sydd eisoes yn darparu lefelau ychwanegol o ffurfioldeb. Er enghraifft, mae Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 a'r rheoliadau a wnaethpwyd o dan y Ddeddf honno yn pennu'r gofynion ffurfioldebau ar gyfer cytundebau credyd rheoledig.<sup>46</sup> Ni ddylai unrhywbeth yn y prosiect hwn yn cael ei ystyried i dynnu neu leihau'r amddiffyniadau hyn.
- 1.65 Mae atwrneiaethau barhaus yn codi materion penodol oherwydd yr effaith posib ar bobl bregus a phobl hŷn. Rydym wedi ystyried y materion hyn a'u trafod gyda Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG). Mae'r system gyfredol ar gyfer cyflawni atwrneiaethau barhaus yn rhannol digidol. Gall y rhoddwr greu'r ddogfen ar-lein ond bydd rhaid ei llofnodi â phen inc cyn bydd yn gallu cael ei chofrestru a'i gweithredu. Wrth ystyried ein casgliad dros dro am ddilysrwydd llofnodion electronig, gallai atwrneiaeth barhaus gael ei chyflawni mewn theori gyda llofnod electronig, ond rydym wedi cael gwybod gan yr OPG nad yw hyn yn bosibl yn ymarferol ar hyn o bryd.
- 1.66 Ni ddylai unrhywbeth yn ein papur ymgynghori gael ei gymryd fel awgrym nad yw awdurdod unigol, megis yr OPG, yn gallu gosod gofynion ei hunan ar gyfer dogfennau i'w cofrestru gyda hi. Mae pryderon diogelwch a dibynadwyaeth ynghylch llofnodion electronig mewn amgylchiadau penodol yn gwestiynau i'w penderfynu gan y partïon.<sup>47</sup> Serch hynny, rydym yn nodi bod llofnod electronig syml wedi'i deipio yn hawdd iawn i'w ffugio.<sup>48</sup> Yn achos atwrneiaethau barhaus, dylai'r OPG ystyried beth sy'n ddigon diogel a dibynadwy ar gyfer rhoddwyr cyn cyflwyno unrhyw system yn defnyddio llofnodion electronig.
- 1.67 Yn y bôn, mae'r prosiect hwn yn trafod ffurfioldebau cyffredinol yn gysylltiedig â chyflawni dogfennau yn electronig, yn bennaf llofnodi, tystio, ardystio a throsgludo. Fel a welir uchod, gall gweithred gael ei gyflawni mewn cyd-destun masnachol neu gan ddefnyddwr neu unigolyn, ac mae'r un rheolau cyffredinol yn gymwys. Mae ein barn ni, am nawr, yw na fyddai'n ddymunol i wneud eithriadau i'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol gyffredinol ar gyfer dogfennau a gyflawnir gan ddefnyddwyr neu unigolion. Ystyriwn fod hyn yn fater ar gyfer deddfwriaeth neu reolaeth benodol. Rydym yn gofyn i ymgynghoreion am eu barnau.

## EFFAITH O GAEL DIWYGIAD

- 1.68 Rydym yn ystyried y bydd ein casgliadau a chynigion, am y tro, ynghylch llofnodion electronig a gweithredoedd yn arwain at fwy o hyder yn y dilysrwydd cyfreithiol o gyflawni dogfennau yn electronig. Mae'r codiad cyfatebol yn y nifer o drafodion electronig gyda photensial i elwa ar fuddion sylweddol ar gyfer busnesau ac unigolion,

<sup>46</sup> Rheoliadau Credyd Defnyddwyr (Cytundebau) 1983, SI 1983 Rhif 1553 a Rheoliadau Credyd Defnyddwyr (Cytundebau) 2010, SI 2010 Rhif 1014.

<sup>47</sup> Yn achos atwrneiaethau barhaus, mae "partïon" yn golygu'r OPG.

<sup>48</sup> Gweler paragraff 2.48 a 6.39 o'r papur ymgynghori.

yn y ddau effeithlonrwydd cynyddol a chaniatáu adnoddau i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill.

- 1.69 Mae'r costau trosiannol o'n cynigion am ddiwygiad yn weddol bychain ac mae'n annhebygol y bydd costau rheolaidd. Er hynny, mae'n anodd pennu rhif ar y buddion neu'r costau yn gysylltiedig â'n cynigion. O ganlyniad, rydym yn gofyn i ymgylgoreion am dystiolaeth fesurol ac ansoddol ynghylch beth maent yn credu fydd yr effeithiau o'n cynigion. Bydd yr wybodaeth a dderbyniwn gan ymgylgoreion mewn ymateb i'r cwestiynau isod yn ffurfio sail yr asesiad effaith i'w chyhoeddi gyda'n hadroddiad terfynol.

## **RHESTR O GWESTIYNAU YMGYNGHORI**

- 1.70 Rydym yn gofyn i ymgylgoreion, trwy'r papur ymgynghori, am eu barnau ar ein casgliadau a chynigion hyd at hyn. Er hwylustod, rydym wedi rhestru pob un o'r cwestiynau ymgynghori, a'r cyfeiriadau paragraffau yn cyfateb i'r papur ymgynghori, isod.

### **Cwestiwn Ymgynghori 1.**

- 1.71 Rydym wedi dod i'r casgliad, am y tro, bod modd i lofnod electronig gwrdd â'r gofyn statudol am gael lofnod o dan y gyfraith gyfredol, oni bai bod bwriad i ddilysu'r ddogfen. A yw'r ymgylgoreion yn cytuno?

**Paragraff 3.87**

### **Cwestiwn Ymgynghori 2.**

- 1.72 Mae ein casgliad, am nawr, yw bod y gofyn dan y gyfraith gyfredol bod rhaid i'r gweithred gael ei lofnodi "ym mhresenoldeb tyst" yn golygu bod rhaid cael presenoldeb corfforol y tyst hwnnw. A yw'r ymgylgoreion yn cytuno?

**Paragraff 4.57**

### **Cwestiwn Ymgynghori 3.**

- 1.73 Rydym yn croesawu barnau a phrofiadau ymgylgoreion am sut mae awdurdodaethau eraill wedi ymdrin â'r mesur trawsffiniol o gyflawni dogfennau yn electronig.

**Paragraff 6.19**

#### **Cwestiwn Ymgynghori 4.**

1.74 Rydym o'r farn lle mae darpariaeth benodol yn angenrheidiol ar gyfer mathau arbennig o ddogfennau (er enghraifft, i amddiffyn partïon bregus, yn enwedig mewn achosion atwrneiaethau barhaus), y mae'n fater am ddeddfwriaeth neu reolaeth benodol, ac nid i'r gyfraith gyffredin ynglŷn â chyflawni dogfennau. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

**Paragraff 6.41**

#### **Cwestiwn Ymgynghori 5.**

1.75 Rydym o'r farn nad yw diwygiad deddfwriaethol yn angenrheidiol i gadarnhau a yw llofnod electronig yn gallu bodloni gofyn staudol am gael llofnod. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

**Paragraff 7.20**

#### **Cwestiwn Ymgynghori 6.**

1.76 Rydym yn cynnig, am y tro, y dylai gweithgor diwydiant gael ei sefydlu, i'w gynllunio o bosib gan y Llywodraeth, i ystyried materion ymarferol a thechnegol. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

**Paragraff 7.28**

#### **Cwestiwn Ymgynghori 7.**

1.77 Rydym yn cynnig, am y tro, y dylai fod yn bosibl i dystio llofnod electronig drwy linc fideo ac i ardystio'r ddogfen wedi hynny. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

**Paragraff 8.32**



### **Cwestiwn Ymgynghori 8.**

1.78 Os bydd tystio drwy linc fideo yn cael ei ganiatáu, sut mae'r ymgynghoreion yn ystyried y dylai'r tyst gwblhau'r ardystio:

- (1) Trwy raglen lofnodi a fydd y llofnodwr a'r tyst yn logio mewn iddi?
- (2) Wrth drefnu bod y llofnodwr yn anfon y ddogfen drwy e-bost at y tyst yn syth wedi ei llofnodi?

#### **Paragraff 8.33**

### **Cwestiwn Ymgynghori 9.**

1.79 A yw ymgynghoreion yn ystyried y dylai fod yn bosibl i "dystio" llofnod electronig drwy raglen lofnodi ar-lein mewn amser real, heb unrhyw linc fideo neu gyfathrebu uniongyrchol rhwng y llofnodwr a'r tyst?

#### **Paragraff 8.42**

### **Cwestiwn Ymgynghori 10.**

1.80 Rydym yn credu na ddylai'r gofyn tystio ac ardystio am gael llofnodion electronig ar weithredoedd gael ei ailgyflwyno gyda math penodol o dechnoleg, megis llofnod digidol yn defnyddio Seilwaith Allweddol Cyhoeddus. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

#### **Paragraff 8.50**

### Cwestiwn Ymgynghori 11.

1.81 A yw ymgynghoreion yn meddwl bod achos dros symud i ffwrdd o'r syniadau traddodiadol o dystio ac ardystio yn y cyd-destun o gyflawni gweithredoedd yn electronig, yn caniatáu cydnabyddiaeth electronig yn lle? Os felly:

- (1) Sut ddylai cydnabyddiaeth electronig gael ei gweithredu (er enghraifft, drwy e-bost, dros y ffôn, drwy neges destun, neu mewn person)?
- (2) A yw ymgynghoreion yn ystyried y dylai fod amser penodedig (er enghraifft, 24 awr) lle:
  - (a) mae rhaid i'r cydnabyddiaeth ddigwydd wedi llofnodi; ac
  - (b) mae rhaid i'r cydnabyddiaeth a'r tystio ddigwydd?
- (3) Sut ddylai'r tyst gofnodi cydnabyddiaeth y llofnodwr?

### Paragraff 8.60

### Cwestiwn Ymgynghori 12.

1.82 Mae 'na gofyn bod rhaid i weithredoedd gael eu trosgludo ond ni chredwn fod hyn yn rhwystro'r broses o gyflawni gweithredoedd yn electronig yn ymarferol. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Paragraff 8.70

### Cwestiwn Ymgynghori 13.

1.83 Ystyriwn fod diwygiad deddfwriaethol yn ddiangen ac yn anaddas ar gyfer cyfeirio goblygiadau *penderyniad* Mercury. A yw'r ymgynghoreion yn cytuno?

### Paragraff 8.83

### Cwestiwn Ymgynghori 14.

1.84 A yw ymgynghoreion yn meddwl y dylai fod adolygiad o'r gyfraith ynglŷn â gweithredoedd fel prosiect dyfodol gan Comisiwn y Gyfraith?

### Paragraff 8.88

### **Cwestiwn Ymgynghori 15.**

1.85 Credwn ni, am y tro, fod modd i lofnod electronig gwrdd â'r gofyn statudol am gael lofnod, oni bai bod bwriad i ddilysu'r ddogfen. A yw ymgynghoreion yn meddwl y bydd hyn yn arwain at fwy o hyder yn y dilysrwydd o gyflawni dogfennau yn electronig yn Lloegr a Chymru? A oes angen mwy?

#### **Paragraff 8.93**

### **Cwestiwn Ymgynghori 16.**

1.86 Beth mae ymgynghoreion yn meddwl fydd y gwerth ariannol drwy gael mwy o hyder yn y dilysrwydd o gyflawni dogfennau yn electronig yn Lloegr a Chymru? Er enghraifft, a yw ymgynghoreion yn meddwl y gallai fod ostyngiad mewn costau trafodaethol gymaint â 10% i 30%?

#### **Paragraff 8.94**

### **Cwestiwn Ymgynghori 17.**

1.87 A yw ymgynghoreion yn cytuno y byddai cynnig Comisiwn y Gyfraith i gychwyn gweithgor diwydiant, i ystyried materion ymarferol a thechnegol, yn:

- (1) darparu buddion megis costau trafodaethol gostyngol? Os felly, faint fydd hi?
- (2) darparu buddion nad yw'n ariannol? Os felly, pa fuddion?

#### **Paragraff 8.95**

### **Cwestiwn Ymgynghori 18.**

1.88 Rydym wedi canfasio nifer o opsiynau ar gyfer cyflawni gweithredoedd yn electronig heb orfod cael presenoldeb corfforol y tyst. Rydym yn croesawu tystiolaeth gan ymgynghoreion am y buddion (er enghraifft, llai o oediadau yn cwblhau trafodion) neu gostau a allai ddigwydd o ganlyniad:

- (1) bod yn gymwys i gyflawni gweithredoedd yn electronig heb orfod cael presenoldeb corfforol y tyst; neu
- (2) unrhyw neu bob un o'r opsiynau penodol ar gyfer cyflawni gweithredoedd yn electronig a ddisgrifir uchod, yn bennaf drwy linc fideo, rhaglen lofnodi, neu gydnabyddiaeth.

### **Paragraff 8.96**